**GORCHYMYN GWYRO CROESFAN REILFFORDD**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 119A**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**(GWYRO LLWYBR TROED 16 LLANGRALLO ISAF)**
**GORCHYMYN GWYRO CROESFAN REILFFORDD RHIF. 1 2025**

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("yr awdurdod") o dan Adran 119A o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980").

Mae'r llwybr troed a ddisgrifir ym mharagraff 1 o'r gorchymyn hwn yn ardal yr awdurdod yn croesi rheilffordd drwy ddull arall ar wahân i dwnnel neu bont.

Mae'n ymddangos i'r awdurdod ei bod yn fanteisiol er budd diogelwch aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio, neu'n debygol o ddefnyddio, y llwybr troed dan sylw y dylid ei wyro i dir sy'n eiddo i weithredwr y rheilffordd fel y ddisgrifir yn yr atodlen.

**DRWY'R GORCHYMYN HWN:**

1. Rhaid dileu'r hawl tramwy cyhoeddus dros y tir a leolir ar Fferm Torcoed, Llangrallo, Pen-y-bont ar Ogwr, ac a ddangosir â llinellau parhaus trwm ar y map sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn, ac a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Atodlen iddo, yn dilyn 28 diwrnod ar ôl dyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn.

2. Ar ôl 28 diwrnod yn dilyn dyddiad cadarnhau'r gorchymyn hwn, bydd llwybr cyhoeddus dros y tir i'r de Brif Linell reilffordd De Cymru yn Llangrallo, Pen-y-bont ar Ogwr, a ddisgrifir yn Rhan 2 yr Atodlen ac a ddangosir â llinell doredig drom ar y map sydd ynghlwm wrth y gorchymyn hwn.

3. Bydd gweithredwr y rheilffordd y mae'r llwybr troed a ddisgrifir ym mharagraff 1 yn ei chroesi yn cynnal y rhan a ddangosir rhwng Pwyntiau A-C-D ar fap dywededig y llwybr troed a gaiff ei greu drwy'r gorchymyn hwn.

4. Bydd yr hawliau a roddir i'r cyhoedd o dan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a'r amodau a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen.

Gosodwyd Sêl Gyffredin **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL )**
**PEN-Y-BONT AR OGWR )**
ar 2025 **)**
ym mhresenoldeb:-

**LLOFNODWR AWDURDODEDIG**

## ATODLEN
## RHAN 1
## DISGRIFIAD O SAFLE LLWYBR NEU FFORDD BRESENNOL

Mae’r rhan honno o Lwybr Troed 16 Llangrallo Isaf, sy’n dechrau ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid SS 9500 8035), i’r de o’r llinell reilffordd, ac yn mynd yn ei flaen i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin-gogledd-orllewin drwy gae a buarth am oddeutu 158 metr i Fferm Torcoed, Pwynt B (Cyfeirnod Grid SS 9484 8040).

Tua 158 metr yw cyfanswm hyd y rhan hon o Lwybr Troed 17 sydd i'w wyro, fel y dangosir gan linell ddu drom ar y map. Lled diffiniol y llwybr troed yw 0.6 metr.

## RHAN 2
## DISGRIFIAD O SAFLE LLWYBR NEU FFORDD NEWYDD


Rhan newydd o Lwybr Troed 16 Llangrallo Isaf sy'n dechrau ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid SS 9500 8035), i'r de o'r llinell reilffordd, ac yn mynd yn ei blaen i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin-de-orllewin am oddeutu 147 metr ar hyd llwybr â wyneb graeanog, cyn pasio drwy gât cae ym Mhwynt C (Cyfeirnod Grid SS 9487 8028). Mae'r llwybr wedyn yn parhau i gyfeiriad y gorllewin-de-orllewin am oddeutu 7 metr i derfynu wrth ei gyffordd â Llwybr Troed 15 Llangrallo Isaf ym Mhwynt D (Cyfeirnod Grid SS 9487 8027).

Cyfanswm hyd y rhan newydd o Lwybr Troed 16 yw oddeutu 154 metr ac 1.8 metr yw ei led, fel y dangosir â llinell doredig drom ar y map.

Mae hawl tramwy newydd yn cael ei chreu dros y safle cyfan (A-C-D) sy'n eiddo i Network Rail Infrastructure Limited.

## RHAN 3
## CYFYNGIADAU AC AMODAU

Bydd gât cae (wedi'i hadeiladu'n unol â BS5709:2018) yn cyfyngu ar y Llwybr Troed ym Mhwynt C (Cyfeirnod Grid SS 9487 8028).




Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

**BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL**


**COMMUNITIES DIRECTORATE**

*Corporate Director Communities*

Civic Offices
Angel Street
Bridgend CF31 4WB
Telephone (01656) 643643


**RAIL CROSSING DIVERSION ORDER**
**HIGHWAYS ACT 1980 SECTION 119A**

**BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL**
**(DIVERSION OF FOOTPATH 16 COYCHURCH LOWER)**
**RAIL CROSSING DIVERSION ORDER NO. 1 2025**

N W E S

Scale 1:1,250

**Date: 07/02/2025**


**©Crown Copyright and database right 2025. Ordnance Survey AC0000851951. Use of this data is subject to terms and conditions.**

**©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2025. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000851951. Mae defnydd o'r data hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau.**

DEDDF PRIFFYRDD 1980

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR
(GWYRO LLWYBR TROED 16 LLANGRALLO ISAF)
GORCHYMYN GWYRO CROESFAN REILFFORDD RHIF. 1  2025

K Watson,
Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol,
Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol
Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,
Y Swyddfeydd Dinesig,
Stryd yr Angel,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 4WB.

Cyf Cyfreithiol: HIG001-1122 / TE/H/MPP/FP16CYL